**Eluned Morgan AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol**
**Minister for International Relations and the Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

5 Mehefin 2020

Annwyl Dai,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 22 Mai. Rwyf wedi ymateb i'r cwestiynau a nodwyd gennych isod; a byddwn yn hapus iawn i'w hegluro ymhellach yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 16 Mehefin.

**<u>Rhaglen y Cytundeb Parhad Masnach</u>**

**1. A yw argyfwng COVID-19 wedi arwain at unrhyw oedi wrth gyflawni rhaglen y Cytundeb Parhad Masnach, ac, os felly, beth yw'r goblygiadau i Gymru?**

Mae Adran Masnach Ryngwladol Llywodraeth y DU (DIT) yn arwain y rhaglen Trafod a Chydgysylltu Parhad (CNC) (sy'n dwyn yr enw ffurfiol Rhaglen y Cytundeb Parhad Masnach) i atgynhyrchu 40 o'r cytundebau masnach a drefnwyd gan yr UE. O 25 Mawrth ymlaen, a phan gyflwynwyd y cyfyngiadau symud, roedd rhyw 20 o'r cytundebau hyn wedi'u llofnodi. Mae'r cytundebau hynny nad ydynt wedi'u trosglwyddo yn cynrychioli rhyw 6.9% o gyfanswm masnach Cymru o ran nwyddau (ac eithrio Japan sy'n cynrychioli 2.6% yn rhagor – gweler Atodiad A am fanylion pellach). O gymharu â hynny, mae'r UE yn cynrychioli rhyw 49% o gyfanswm masnach Cymru o ran nwyddau.

Mae cynnal trafodaethau cymhleth pan fo cyfyngiadau teithio yn eu lle ac nad oes modd cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn sicr yn heriol ond caf fy nghynghori gan DIT fod gwaith yn parhau ar y rhaglen er gwaetha'r cyfyngiadau hyn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**2. I ba raddau y mae eich adran yn gweithio gydag adran Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth i baratoi busnesau Cymru ar gyfer effaith unrhyw oedi i raglen y Cytundeb Parhad Masnach?**

Mae fy swyddogion, yn enwedig y rheini sy’n gweithio yn y maes Masnach a Mewnfuddsoddi, yn gweithio’n agos iawn gyda’r rheini yn isadran Busnes a Rhanbarthau Adran yr Economi a Thrafnidiaeth ar lefel strategol a gweithredol. Mae hynny’n cynnwys cyflawni amrywiaeth eang o weithgareddau i gefnogi busnesau drwy’r cyfnod heriol y maent yn ei wynebu yn sgil COVID-19 a diwedd y cyfnod pontio.

Defnyddiwn ddull cydgysylltiedig i sicrhau bod busnesau yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf yn ogystal â chyngor pwrpasol ar effaith y newidiadau tebygol hyn i’r rheoliadau masnachu.

**3. A ydych yn hyderus y bydd gweddill y cytundebau gyda gwledydd y mae Llywodraeth y DU yn ceisio sicrhau parhad â hwy yn cael eu trosglwyddo'n llwyddiannus cyn diwedd y cyfnod pontio?**

Byddwch yn ymwybodol mai cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw’r trafodaethau gyda’r gwledydd sy’n weddill ac maent yn parhau. Dylid cofio bod llawer o ffactorau a fydd yn effeithio ar gasgliad llwyddiannus y trafodaethau hyn, gan gynnwys parodrwydd yr ochr arall a’r effaith y mae pandemig Covid-19 wedi’i chael ar allu’r ddwy ochr i rhith-drafod, ymhlith pethau eraill. Fodd bynnag, gan dybio bod Llywodraeth y DU yn gwrthod gofyn am estyniad i’r Cyfnod Pontio, rwy’n meddwl felly ei bod yn annhebygol iawn y bydd y cytundebau a fydd yn cymryd lle rhai’r UE i gyd wedi’u llofnodi erbyn 31 Rhagfyr.

**4. Ni fydd y cytundeb a lofnododd y DU â Norwy a Gwlad yr Iâ ar nwyddau, ar 2 Ebrill 2019, yn dod i rym mwyach ar ddiwedd y cyfnod pontio. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi awydd i weithio tuag at gytundeb newydd gyda Norwy a Gwlad yr Iâ yn ystod y cyfnod pontio. Gan fod hwn yn gytundeb arwyddocaol i Gymru, pa drafodaethau a gawsoch â Llywodraeth y DU mewn perthynas â chytundeb newydd gyda Norwy a Gwlad yr Iâ?**

Gadewch imi eich sicrhau fy mod yn ymrwymedig i wneud popeth yn fy ngallu i sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu cynrychioli’n llwyr yn nhrafodaethau masnach Llywodraeth y DU. Gallaf gadarnhau bod fy nhrafodaethau gyda Gweinidogion DIT yn ymdrin â gwledydd sy’n rhan o’r rhaglen CNC a gwledydd newydd FTA. Rwy’n parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i gyflenwi polisi masnach ryngwladol sy’n gweithio ar gyfer pob rhan o’r DU ac rwy’n parhau i bwysleisio’r angen i ddarparu cyfleoedd go iawn i’r llywodraethau datganoledig gyfrannu at ddatblygiad y polisi a’r broses drafod.

**5. A ydych yn hyderus y gellir dod i gytundeb ar nwyddau rhwng y DU a Norwy a Gwlad yr Iâ erbyn diwedd y cyfnod pontio, ac, os nad yw’n bosibl, beth fyddai'r effaith bosibl ar economi Cymru?**

Fel y gwyddoch, mae’r berthynas sydd wedi cydblethu rhwng Gwlad yr Iâ, Norwy a’r UE yn cyfyngu ar ba drefniadau masnachu y gellir eu parhau’n ddwyochrog rhwng y DU, Gwlad yr Iâ a Norwy. Yn benodol, mae cydweddu Gwlad yr Iâ a Norwy yn rheoleiddiol â’r farchnad sengl yn golygu ei bod yn amhosibl trafod y rhwystrau technegol i fasnach tan fod dyfodol y berthynas rhwng yr UE a’r DU yn glir. Fodd bynnag, gan nad yw Norwy na Gwlad yr Iâ yn rhan o Undeb Tollau gyda’r UE, maent yn gallu trafod tariffau, a oedd ffocws y cytundeb a drafodwyd yng nghyd-destun ‘dim cytundeb’.

Yn ogystal â'r mater penodol ynghylch y cyfyngiadau ar ryddid Norwy a Gwlad yr Iâ i drafod materion rheoleiddiol, mae'r un ffactorau mwy cyffredinol sy'n effeithio ar drafodaethau a nodwyd yn fy ateb i gwestiwn 3 uchod yn berthnasol.

O ran masnachu gyda'r cenhedloedd hyn a'u heffaith bosibl:

- Norwy yw 24ain farchnad allforio fwyaf Cymru a'r 7fed marchnad allforio fwyaf.
- Gwlad yr Iâ yw 80fed farchnad allforio fwyaf a'r 87fed farchnad allforio fwyaf.

Heb y cytundeb yn ei le, mae manylion y sectorau y gellid effeithio fwyaf arnynt, o bosibl, i'w gweld yn Atodiad B. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod y tariffau mewn llawer o'r sectorau hyn yn isel iawn ac rwy'n parhau i gyflwyno'r achos i Lywodraeth y DU fod rhwystrau nad ydynt yn dariffau yn peri llawer mwy o ofid inni gyda'u heffeithiau yn debygol i fod lawer yn fwy nag effeithiau unrhyw dariffau.

## Sefydliad Masnach y Byd

**6. Daeth ymgynghoriad cyhoeddus Llywodraeth y DU ar Dariff Byd-eang y DU i ben ar 5 Mawrth 2020. A ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad, ac os felly, a allwch roi copi inni o ymateb Llywodraeth Cymru?**

Gallaf gadarnhau yr ysgrifennais at y Gweinidog Masnach, Conor Burns, ar 15 Mawrth yn nodi'n safbwyntiau ar ymgynghoriad Tariff Byd-eang Llywodraeth y DU. Atodaf gopi o'r llythyr hwnnw i'r ymateb hwn.

**7. Pa gysylltiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gael wrth ddatblygu polisi Tariff Byd-eang newydd y DU?**

Fel y nodwyd gennyf uchod, ysgrifennais at y Gweinidog Gwladol ar y pryd yn esbonio ein safbwyntiau ar y cynigion o ran y tariff. Roedd fy swyddogion hefyd wedi cwrdd â thîm Llywodraeth y DU sy'n arwain ar yr ymgynghoriad tariff byd-eang yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad a chawsant eu gwahodd hefyd i arsylwi mewn digwyddiad rhanddeiliaid a drefnwyd gan DIT. Rhoddwyd gwybod inni y byddai'r amserlenni newydd yn cael eu cyhoeddi o flaen llawn, er na chawsom lawer o rybudd o gwbl am hynny.

Rwy'n falch bod rhai o'r newidiadau a wnaed i'r cynigion gwreiddiol yn mynd i'r afael â rhai o'n pryderon, er enghraifft, drwy gynnal sawl tariff ar nwyddau amaethyddol. Fodd bynnag, mae ein cyfraniad cyffredinol at ddatblygiad y polisi Tariff Byd-eang newydd wedi bod yn gyfyngedig iawn gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU yn ystyried y gwaith o ddatblygu tariffau (ffurf ar dreth) yn faes polisi sydd wedi'i ddargadw'n llwyr. Dro ar ôl tro, rwyf wedi dadlau gyda Llywodraeth y DU bod y ffiniau rhwng cymhwysedd sydd wedi'i ddargadw ac un sydd wedi'i ddatganoli yn aneglur mewn perthynas â pholisi masnach ac mae'r polisi tariff yn enghraifft ardderchog o hyn. Er bod datblygu tariffau a'u gweithredu yn wir yn faes polisi sydd wedi'i ddargadw, mae'r penderfyniadau ynghylch tariffau hefyd yn ymdrin â materion, megis y diwydiant amaethyddol yng Nghymru, sy'n ymwneud â meysydd o fewn cymhwyster datganoledig.

## Cytundebau rhyngwladol nad ydynt yn ymwneud â masnach

**8. A oes unrhyw gytundebau rhyngwladol nad ydynt yn ymwneud â masnach y mae Llywodraeth Cymru yn galw ar Lywodraeth y DU i gytuno iddynt cyn diwedd y cyfnod pontio?**

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir y dylai Llywodraeth y DU geisio parhau i gydweithredu a chydweithio â'r UE, gan gynnwys drwy'r amrywiaeth o gytundebau rhyngwladol sy'n bodoli rhwng y DU a'r UE. Mae'r cytundebau hyn yn destun trafodaeth. Rydym yn disgwyl eglurder ynghylch natur dyfodol y berthynas yn dilyn y cyfarfod pwyso a mesur yn nes ymlaen y mis hwn. Wedyn byddwn yn gallu asesu a oes unrhyw gytundebau rhyngwladol na fydd yn rhan o gytundebau ehangach y berthynas yn y dyfodol. Mae pob Gweinidog portffolio unigol yn gyfrifol am eu cytundebau rhyngwladol nad ydynt yn ymwneud â masnach eu hunain, sy'n sefyllfa debyg i honno ar lefel Llywodraeth y DU.

**9. Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o rwymedigaethau rhyngwladol mewn meysydd datganoledig, yn absenoldeb deddfwriaeth yr UE?**

Dylai'r broses o ddatblygu 'cyfraith yr UE a ddargedwir' dros y blynyddoedd diwethaf olygu y bydd unrhyw rwymedigaeth ryngwladol barhaus a weithredwyd drwy gyfraith yr UE yn cael ei chadw ar lyfr statud y DU ar ddiwedd y cyfnod pontio.

Nid yw Llywodraeth Cymru eto wedi cynnal archwiliad cynhwysfawr o'r rhwymedigaethau rhyngwladol sy'n effeithio ar feysydd datganoledig, gyda'r Gweinidogion portffolio yn ysgwyddo'r prif gyfrifoldebau am rwymedigaethau rhyngwladol o fewn eu portffolio (er enghraifft, gyda Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig yn arwain ar bob mater sy'n ymwneud â chytundebau amgylcheddol rhyngwladol).

Fel yw'r achos ar hyn o bryd, pan gaiff polisïau eu datblygu neu ddeddfwriaeth ei llunio a fydd yn addasu cyfraith yr UE a ddargedwir, neu mewn gwirionedd, unrhyw faes arall o'r gyfraith yn y dyfodol, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i asesu cysylltiadau cynigion o'r fath â rhwymedigaethau rhyngwladol y DU. Bydd deunydd esboniadol cysylltiedig yn adlewyrchu'r fframwaith cyfreithiol rhyngwladol newydd a fydd yn cynnwys y ddeddfwriaeth honno, gan sicrhau bod unrhyw rwymedigaethau rhyngwladol perthnasol yn amlwg.

**10. A fu unrhyw drafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar gytundebau rhyngwladol nad ydynt yn ymwneud â masnach?**

Mae swyddogion Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn cyfathrebu'n rheolaidd ynghylch cytundebau rhyngwladol nad ydynt yn ymwneud â masnach sy'n effeithio ar gyfrifoldebau datganoledig, er enghraifft, ar hawliau pleidleisio cilyddol. Cânt eu cyflwyno at sylw'r Gweinidogion, a'r Senedd wedi hynny, ar yr adegau priodol.

**Cyflawni'r Strategaeth Ryngwladol**

**11. A ydych yn bwriadu adolygu'r modd y caiff eich strategaeth ryngwladol a'i blaenoriaethau eu cyflawni, mewn ymateb i'r pandemig COVID-19, ac, os felly, sut?**

Mae Covid-19 wedi effeithio'n fawr ar bawb a drafftiwyd y Strategaeth Ryngwladol cyn i'r pandemig ddod i'r amlwg. Mae'r byd fel y mae heddiw yn wahanol iawn ac er bod sawl ansicrwydd yn parhau ynghylch sut y bydd pethau'n datblygu wrth inni symud ymlaen, rydym yn gwybod bod y pandemig wedi effeithio ar economi Cymru a bydd yr effaith honno yn parhau. Yn fy rôl fel y Gweinidog Cysylltiadau Rhyngwladol, rhaid imi wneud popeth yn fy ngallu i ailadeiladu'r economi a'r wlad o safbwynt rhyngwladol. Rwyf wedi ail-flaenoriaethu ein gwaith brys i sicrhau bod y tîm rhyngwladol yn cyfrannu at yr ymdrech yn erbyn Covid. Mae hyn wedi cynnwys ymdrechion i helpu i ail-wladoli dinasyddion Cymru a oedd yn teithio dramor pan ddaeth y pandemig i'r amlwg ac ymdrechion i ddarparu PPE yng Nghymru. Rwy'n adolygu'r amserlen ar gyfer cyflawni'r Strategaeth Ryngwladol drwy ddatblygu sawl cynllun gweithredu mewn meysydd allweddol â blaenoriaeth.

Mae Cynllun Gweithredu ar Allforio a oedd eisoes wedi'i ddatblygu'n dda cyn y pandemig bellach wedi'i ail-lunio i gefnogi allforwyr mewn amgylchedd ar ôl Covid. Mae ein cynlluniau ar gyfer rhwydwaith diaspora yn symud ymlaen yn dda a bydd cynllun manwl ar gyfer datblygu ein cysylltiadau gyda'n rhanbarthau allweddol yn ystyried bellach sut y gallwn ddysgu o'n gilydd mewn byd ar ôl Covid. Rydym yn parhau i gysylltu â'n rhanbarthau allweddol yn Ewrop yn ystod yr argyfwng. Mae llawer o'n gwaith yn Affrica yn cael ei wneud yn ôl yr arfer o hyd ond rydym yn ymwybodol o'r effaith ddinistriol y gallai'r feirws yn ei chael yn Affrica Is-Sahara ac y bydd angen inni fod yn barod i ymateb lle y gallwn.

Mae fy adran wedi bod yn cyfrannu'n uniongyrchol at ymateb ehangach Llywodraeth Cymru i'r pandemig. Yn benodol, mae adrannau megis Addysg, Iechyd, yr Economi a Gwyddoniaeth wedi bod yn defnyddio gwybodaeth a gasglwyd o wledydd eraill gan fy nhimau tramor i lunio eu dull o fynd i'r afael â'r argyfwng ac i lywio polisïau Cymru ar, er enghraifft, ail-agor ysgolion ar ôl y cyfyngiadau symud. Mae'r gwaith hwn wedi dangos bod pob maes yn y llywodraeth yn gallu elwa ar y gwerth ychwanegol sy'n deillio o'n rhwydwaith tramor.

Mae'r sefyllfa yn newid o hyd, ac mae hynny'n golygu y bydd angen inni adolygu'r Strategaeth Ryngwladol a'i ganlyniadau yn rheolaidd wrth i'r pandemig fynd rhagddo.

Hyderaf y bydd yr atebion hyn yn rhoi diweddariad digonol ichi ynghylch yr agwedd ryngwladol ar waith fy mhortffolio a byddaf yn hapus iawn i ddarparu rhagor o wybodaeth ichi yn y cyfarfod ar 16 Mehefin.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol
Minister for International Relations and the Welsh Language

## Atodiad A

| Value of Welsh Goods Exports and Imports to TAC Partners - 2019 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Source: HMRC RTS | | **OFFICIAL - SENSITIVE** | | | | |
| | | | ***Agreements not signed*** | | | |
| **Agreement** | **Lead UKG Dep.** | **Exports 2019 (£m)** | **% of Total Welsh Goods exports** | **Imports 2019 (£m)** | **Total bilateral trade year ending Dec 2019 (£m)** | **% of Total Welsh Trade in Goods** |
| | | | | | | |
| Ivory Coast | FCO | 1.3 | 0.0% | 0.65 | 1.4 | 0.00% |
| Morocco | FCO | 17.0 | 0.1% | 11.8 | 28.7 | 0.08% |
| Albania | FCO | - | - | - | - | |
| Bosnia | FCO | - | - | - | - | |
| Cameroon | DFID | 0.2 | 0.0% | 0.9 | 1.1 | 0.00% |
| Macedonia | FCO | 0.9 | 0.0% | 0.1 | 1.0 | 0.00% |
| Monten. | FCO | - | - | - | - | |
| Serbia | FCO | 4.0 | 0.0% | 1.8 | 5.8 | 0.02% |
| Algeria | FCO | 4.1 | 0.0% | 445.1 | 449.2 | 1.25% |
| Canada | DIT | 233.9 | 1.3% | 468.3 | 702.1 | 1.96% |
| EAC (Kenya and Tanzania only) | DFID | 13.8 | 0.1% | 10.8 | 35.4 | 0.10% |
| Egypt | FCO | 36.4 | 0.2% | 41.8 | 78.2 | 0.22% |
| Ghana | DFID | 4.6 | 0.0% | 67.9 | 72.5 | 0.20% |
| Mexico | DIT | 62.7 | 0.3% | 74.7 | 137.4 | 0.38% |
| Moldova | FCO | - | - | - | - | |
| Ukraine | FCO | 12.0 | 0.1% | 27.9 | 39.9 | 0.11% |
| Japan | DIT | 295.9 | 1.7% | 639.2 | 935.1 | 2.61% |
| Turkey | DIT | 338.6 | 1.9% | 590.6 | 929.2 | 2.59% |
| **Total** | | **1,025** | **5.8%** | **2,381** | **3,406** | **9.54%** |
| **Total Welsh bilateral trade** | | | | | **35,827** | |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad LlC o Ystadegau Masnach Ryngwladol HMRC*


# Atodiad B

**<u>Masnach Cymru gyda Norwy a Gwlad yr Iâ</u>**

| Gwlad | Gwerth Allforion | % o gyfanswm Allforion Cymru | Ranc | Gwerth Mewnforion | % o gyfanswm Allforion Cymru | Ranc |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Norwy | £101.6m | 0.6% | 24ain | £628.4m | 3.5% | 7fed |
| Gwlad yr Iâ | £5.5m | 0.0% | 80fed | £0.97m | 0.0% | 87fed |


*Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Ryngwladol HMRC, 2019*

**Prif Nwyddau a Allforiwyd o Gymru i Norwy yn 2019**





- Haearn a dur oedd y nwyddau a allforiwyd fwyaf o Gymru i Norwy yn 2019, gan gynrychioli 22% o gyfanswm allforion Cymru i Norwy.
- Norwy oedd y 12fed farchnad allforio fwyaf ar gyfer haearn a dur Cymru – tua 2.4% o gyfanswm allforion Cymru o'r cynhyrchion hyn.

**Prif Nwyddau a Fewnforiwyd i Gymru o Norwy yn 2019**





- Petrolewm a chynhyrchion petrolewm oedd y prif nwyddau a fewnforiwyd i Gymru o Norwy yn 2019, gan gynrychioli tua 84% o'r holl nwyddau.
- Norwy oedd yr 2il farchnad fewnforio fwyaf ar gyfer y sector hwn, gan gynrychioli 13.7% o gyfanswm mewnforion Cymru o fewn y sector hwn.

**Prif Nwyddau a Allforiwyd o Gymru i Wlad yr Iâ yn 2019**



- Nwyddau yn ymwneud ag adeiladau, plymwaith, gwres a goleuadau oedd wedi cyfrannu fwyaf at y nwyddau a allforiwyd o Gymru i Wlad yr Iâ yn 2019, gan gynrychioli tua 10% o gyfanswm yr allforion i Wlad yr Iâ.
- Gwlad yr Iâ oedd y 7fed farchnad allforio fwyaf ar gyfer y sector hwn, gan gynrychioli tua 2.3% o gyfanswm allforion Cymru o fewn y sector hwn.

**Prif Nwyddau a Mewnforiwyd i Gymru o Wlad yr Iâ yn 2019**




- Olewau a brasterau anifeiliaid oedd wedi cyfrannu fwyaf at y nwyddau a fewnforiwyd i Gymru o Wlad yr Iâ, gan gynrychioli tua 39% o'r holl nwyddau.
- Gwlad yr Iâ oedd y farchnad fewnforio fwyaf ar gyfer olewau a brasterau anifeiliaid, gan gynrychioli 35.2% o fewnforion Cymru o fewn y sector hwn.

<u>Masnach Cymru mewn Sectorau nad ydynt yn rhan o'r Cytundeb</u>

**Masnach o ran Gwasanaethau**

Mae ystadegau arbrofol ONS ar fasnach ranbarthol o ran gwasanaethau yn dangos mai gwerth mewnforion ac allforion gwasanaethau Cymreig oedd £4.7 biliwn ac £8.3 biliwn yn y drefn honno. Nid oes data ar ddadansoddiad gwledydd felly nid yw'n bosibl pennu gwerth masnach gwasanaethau rhwng Cymru a Norwy/Gwlad yr Iâ

**Anifeiliaid Byw (heblaw am anifeiliaid isadran 03)**

Gwerth Cyfanswm Masnach Cymru o ran Anifeiliaid Byw oedd £58.9miliwn yn 2019, gyda gwerth yr allforion a'r mewnforion yn £47.9 miliwn a £11.0 miliwn yn y drefn honno.

| Gwlad | Gwerth yr allforion | % o gyfanswm Allforion Cymru | Ranc | Gwerth y mewnforion | % o gyfanswm Mewnforion Cymru | Ranc |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Norwy | £13,000 | 0% | 41fed | £1,000 | 0% | 13eg |
| Gwlad yr Iâ | Dim data | | | Dim data | | |

*Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Ranbarthol HMRC*

**Cynhyrchion Anifeiliaid:**

**Cig a pharatoadau cig**

| Gwlad | Gwerth yr allforion | % o gyfanswm Allforion Cymru | Ranc | Gwerth y mewnforion | % o gyfanswm Mewnforion Cymru | Ranc |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Norwy | £3,000 | 0% | 56fed | £0 | 0% | 69ain |
| Gwlad yr Iâ | £83,000 | 0.1% | 35ain | £0 | 0% | 56fed |

*Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Ranbarthol HMRC*

**Cynhyrchion llaeth ac wyau adar**

| Gwlad | Gwerth yr allforion | % o gyfanswm Allforion Cymru | Ranc | Gwerth y mewnforion | % o gyfanswm Mewnforion Cymru | Ranc |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Norwy | £400,000 | 0.3% | 30ain | £253,000 | 0.4% | 14eg |
| Gwlad yr Iâ | £102,000 | 0.1% | 42fed | £0 | 0% | 66ain |

*Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Ranbarthol HMRC*

**Lledr, crwyn a chrwyn ffwr**

| Gwlad | Gwerth yr allforion | % o gyfanswm Allforion Cymru | Ranc | Gwerth y mewnforion | % o gyfanswm Mewnforion Cymru | Ranc |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Norwy | Dim data | | | Dim data | | |
| Gwlad yr Iâ | Dim data | | | Dim data | | |

*Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Ranbarthol HMRC*

**Deunyddiau anifeiliaid a llysiau crai**

| Gwlad | Gwerth yr allforion | % o gyfanswm Allforion Cymru | Ranc | Gwerth y mewnforion | % o gyfanswm Mewnforion Cymru | Ranc |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Norwy | £31,000 | 0.6% | 24ain | £34,000 | 0.1% | 26ain |
| Gwlad yr Iâ | £2,000 | 0% | 55fed | £0 | 0% | 41fed |

*Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Ranbarthol HMRC*

**Olewau a brasterau anifeiliaid**

| Gwlad | Gwerth yr allforion | % o gyfanswm Allforion Cymru | Ranc | Gwerth y mewnforion | % o gyfanswm Mewnforion Cymru | Ranc |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Norwy | £0 | 0% | 34ain | £120,000 | 11.2% | 5ed |
| Gwlad yr Iâ | £0 | 0% | 31ain | £378,000 | 35.2% | 1af |

*Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Ranbarthol HMRC*

<u>Sut mae Norwy a Gwlad yr Iâ yn cymharu â'r gwledydd y mae DIT yn eu blaenoriaethu ar gyfer cytundebau masnach?</u>

| Gwlad | Gwerth yr allforion | % o gyfanswm Allforion Cymru | Ranc | Gwerth y mewnforion | % o gyfanswm Mewnforion Cymru | Ranc |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Norwy | £101.6m | 0.6% | 24ain | £628.4m | 3.5% | 7fed |
| Gwlad yr Iâ | £5.5m | 0.0% | 80fed | £1.0m | 0.0% | 87fed |
| | | | | | | |
| Awstralia | £132.3m | 0.8% | 20fed | £65.5m | 0.4% | 41fed |
| Seland Newydd | £26.2m | 0.1% | 47fed | £14.1m | 0.1% | 63ain |
| Yr Unol Daleithiau | £2.7bn | 15.5% | 3ydd | £3.2bn | 17.6% | 1af |
| **CPTPP:** | | | | | | |
| Awstralia | £132.3m | 0.8% | 20fed | £65.5m | 0.4% | 41fed |
| Seland Newydd | £26.2m | 0.1% | 47fed | £14.1m | 0.1% | 63ain |
| Chile | £10.9m | 0.1% | 65ain | £9.0m | 0.1% | 67ain |
| Periw | £2.3m | 0% | 89fed | £6.0m | 0.0% | 69ain |
| Canada | £233.9m | 1.3% | 14eg | £468.3m | 2.6% | 11eg |
| Mecsico | £62.7m | 0.3% | 33ain | £74.7m | 0.4% | 38ain |
| Malaysia | £32.3m | 0.2% | 45fed | £34.2m | 0.2% | 51fed |
| Brunei | - | - | - | - | - | - |
| Fiet-nam | £12.8m | 0.1% | 58fed | £50.4m | 0.3% | 44fed |
| Singapôr | £222.3m | 1.3% | 15fed | £178.3m | 1.0% | 25ain |
| Japan | £295.9m | 1.7% | 11eg | £639.2m | 3.5% | 6ed |

*Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Ranbarthol HMRC, 2019*